

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
CYNLLUN DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Cyflwyniad

Mae Adran 13 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu ar gyfer pennu pa swyddogaethau awdurdodau lleol y mae'r Weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt o dan drefniadau Gweithredol. Rhaid i'r Weithrediaeth fod yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r awdurdod lleol oni bai y nodir fel arall mewn Rheoliadau neu fod darpariaethau penodol i'r gwrthwyneb mewn deddfwriaeth arall.

Mae Rhan 2 y Cyfansoddiad yn gosod cylch gwaith y Cyngor, Pwyllgorau'r Cyngor a'r Cabinet. Yn fras, mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- Bennu'r fframwaith polisi a'r gyllideb a swyddogaethau cyfansoddiadol a lled-ddeddfwriaethol eraill.
- Swyddogaethau sy'n cynnwys penderfynu ar geisiadau unigolion am drwydded, cymeradwyaeth, cydsyniad, caniatâd neu gofrestru (gan gynnwys caniatâd a chydsyniad cynllunio penodol) neu reoleiddio unigolion yn uniongyrchol (ac eithrio achosion lle bo disgresiwn cyfyngedig o ran cyflawni'r swyddogaeth) ynghyd ag unrhyw gamau gorfodi perthnasol (gan gynnwys erlyn).
- Cyfrifoldeb y Weithrediaeth yw'r swyddogaethau eraill i gyd, heblaw swyddogaethau trosolwg a chraffu.

Yn y fframwaith hwn, rôl Aelodau yw canolbwyntio ar benderfyniadau eang o ran strategaeth a pholisi. Dylai fod gan reolwyr reolaeth ac awdurdod clir dros weithredu'r penderfyniadau hynny.

Mae mynegi pryderon yn rhan o rôl Aelodau, yn enwedig pryderon etholwyr, ynghyd â thynnu sylw Prif Swyddogion at unrhyw faterion o bryder am unrhyw elfen o wasanaeth. Bydd Prif Swyddogion yn ystyried pryderon a sylwadau Aelodau, gan gydnabod eu dyletswydd i reoli'r gwaith o ddarparu gwasanaeth yn unol â fframwaith polisi'r Cyngor.

Gweithdrefn

1. Y Prif Swyddogion at ddibenion y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau yw'r rhai a nodir isod:
 - Y Prif Weithredwr (Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)
 - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
 - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau
 - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
 - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Swyddog Monitro

Y Prif Weithredwr fydd yn cyflawni ei swyddogaethau, ond os yw'n absennol neu'n methu â gweithredu am reswm arall, awdurdodir y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodwyd gan y Prif Weithredwr i wneud hynny ar ei ran o dro i dro.

2. Rhaid i Brif Swyddogion a/neu Aelodau sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau a ddynodwyd iddynt yn y cynllun dirprwyo hwn:
 - (a) wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau perthnasol a budd y cyhoedd;
 - (b) ystyried unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan Swyddogion eraill y Cyngor, yn benodol gan:

- (i) Brif Swyddog Cyllid y Cyngor pan fydd yn gweithredu'n unol â dyletswyddau'r Swyddog hwnnw o dan Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;
 - (ii) Swyddog Monitro'r Cyngor pan fydd yn gweithredu'n unol â dyletswyddau'r Swyddog hwnnw o dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Dylid derbyn cyngor gan y Swyddog hwn pan fo unrhyw amheuaeth o ran pŵer y Cyngor i weithredu, ynghylch p'un a yw camau gweithredu arfaethedig o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor; lle gall fod ôl-ffeithiau cyfreithiol pwysig os yw'r Cyngor yn gweithredu neu'n methu â gweithredu;
 - (c) gydymffurfio ag unrhyw amodau neu gyfyngiadau ar weithredu yn ôl eu disgresiwn sydd wedi'u gosod un ai gan y Cyngor neu'r Cabinet;
a
 - (ch) ystyried unrhyw benderfyniad a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor neu'r Cabinet mewn perthynas ag unrhyw bolisiau neu weithdrefnau perthnasol.
3. Wrth gyflawni'r swyddogaethau a ddynodwyd iddynt, rhaid i Brif Swyddogion a/neu Aelodau gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Contract a Rheolau Gweithdrefnau Cyllid y Cyngor yn Rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor, ac ni chaiff gyflawni unrhyw swyddogaeth pe byddai gwneud hynny yn:
- (a) achosi gwariant refeniw, oni bai ei fod yn digwydd yn unol ag amcangyfrifon refeniw cymeradwy'r Cyngor neu'r darpariaethau ynghylch trosglwyddo arian sydd wedi'u cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefnau Cyllid yn Rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor; neu'n
 - (b) achosi gwariant cyfalaf, heblaw am wariant cyfalaf ar gaffael tir, ar waith rhagarweiniol neu ddylunio, neu mewn perthynas â chynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor.
4. Rhaid i ddynodiad swyddogaeth i Brif Swyddog a/neu Aelod ar ran y Cyngor gynnwys ym mhob achos y pŵer i ddefnyddio unrhyw bŵer statudol sydd ar gael i'r Cyngor ar ran y Cyngor a/neu'r Cabinet fel awdurdod lleol a fydd yn hwyluso cyflawni'r swyddogaeth a ddynodwyd.
5. Gall unrhyw Brif Swyddog neu Aelod y dynodwyd swyddogaeth iddynt wrthod gwneud penderfyniad mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaeth honno ar gyfer unrhyw fater penodol, ac yn hytrach gallent gyfeirio'r mater at y corff penderfynu perthnasol. Enghraifft o sefyllfa o'r fath yw lle ystyrir bod mater yn arbennig o gynhennus yn wleidyddol, neu lle bo canlyniad y penderfyniad a wneir yn debygol o gael effaith fwy.
6. Gall Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a/neu Swyddog Monitro'r Cyngor ofyn i Brif Swyddog neu Aelod beidio â chyflawni holl neu rai o'r swyddogaethau a ddynodwyd iddynt hyd nes cyflwynir adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor a/neu'r Cabinet.
7. Cyn gwneud penderfyniad yn unol â Chynllun A a/neu Gynllun B1 y Cynlluniau Dirprwyo, rhaid i'r Prif Swyddog a/neu'r Aelod Cabinet sy'n cynnig gwneud y penderfyniad:
- (a) gwblhau'r ffurflen ragnodedig ac anfon copi at Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor i'w alluogi i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i Aelodau'r Cyngor eu harchwilio'n gyffredinol;

- (b) peidio â gwneud penderfyniad terfynol mewn perthynas â chyflawni swyddogaeth y Cyngor a/neu'r Cabinet a ddynodwyd iddynt cyn pen cyfnod o dri diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y ffurflen ragnodedig at y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau, heb gynnwys y diwrnod y cafodd ei anfon;
- (c) ystyried, ynghyd â'r safbwyntiau a fynegwyd gan Aelod(au)'r Cyngor a/neu Swyddog(ion) y Cyngor y'u nodwyd fel ymgynghoreion, unrhyw safbwynt a fynegwyd gan unrhyw Aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad arfaethedig.
8. Nid yw Paragraff 7 uchod yn berthnasol i benderfyniad a wneir gan:
- (a) y Prif Weithredwr na'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ar unrhyw fater mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio brys y Cyngor na all aros tan gyfarfod nesaf y Cabinet am resymau brys; na
- (b) swyddog sy'n cyflawni swyddogaeth a ddynodwyd i'r swyddog hwnnw o dan y Cynllun hwn i awdurdodi setlo achos sifil a/neu droseddol p'un a yw wedi dechrau neu ymlaen llaw, neu i derfynu neu dynnu achos sifil neu droseddol yn ôl; nac
- (c) Aelod Cabinet sy'n gweithredu swyddogaeth sydd ym mhortffolio'r Aelod Cabinet (ac eithrio penderfyniadau sy'n groes i'r Fframwaith Polisi neu sy'n groes i'r Gyllideb gymeradwy neu nad ydynt yn llwyr unol â hi) a fyddai, pe byddai oedi, yn achosi niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd, yn amodol ar ofynion paragraff 17 Rheolau'r Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu; na'r
- (d) Prif Weithredwr, neu os yw'n absennol neu'n methu â gweithredu am reswm arall, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodwyd ganddo o dro i dro os na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor, neu Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo (ac eithrio penderfyniad y dylai'r Cyngor ei wneud yn ôl y gyfraith), yn amodol ar ymgynghori â'r canlynol:
- Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo, neu os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;
 - Arweinydd/Arweinwyr pob grŵp gwleidyddol y mae aelodau'r Cyngor wedi'u rhannu iddynt;
 - Y Prif Swyddog(ion) (os yw hynny'n berthnasol) sy'n gyfrifol am y swyddogaeth y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo.
9. Rhaid i bob Prif Swyddog neu Aelod Cabinet sy'n gwneud penderfyniad yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mhwynt 7 uchod sicrhau bod manylion llawn y penderfyniad wedi'u nodi ar ffurflen ragnodedig o ran y penderfyniad terfynol.
10. Rhaid i bob Prif Swyddog neu Aelod Cabinet sy'n gwneud penderfyniad o dan Gynllun B2 sicrhau y caiff manylion llawn y penderfyniad eu nodi ar ffurflen ragnodedig o ran y penderfyniad ffurfiol.
11. Rhaid i'r Swyddog a/neu'r Aelod sy'n gwneud y penderfyniad lofnodi'r ffurflen ragnodedig.
12. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o benderfyniad arfaethedig a/neu wirioneddol, sef y ffurflen ragnodedig, am chwe blynedd o ddyddiad y penderfyniad.

13. Ar ôl cwblhau'r ffurflen ragnodedig ar gyfer y penderfyniad arfaethedig a/neu wirioneddol, rhaid i'r Prif Swyddog a/neu'r Aelod Cabinet a wnaeth y penderfyniad anfon copi o'r ffurflen:
 - (a) at y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau:
 - (b) Bydd y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau yn rhoi copi i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am graffu ar benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chyflawni swyddogaeth y Cabinet o ran y penderfyniad a wnaed.
14. Er bod penderfyniadau a wneir yn unol â Chynllun A, a Chynllun B1 y Cynllun Dirprwyo yn amodol ar gael eu galw i mewn gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac eithrio'r penderfyniadau hynny a nodwyd yn 8 uchod, sy'n weithdrefn sydd wedi'i nodi yn Rhan 4 y Cyfansoddiad, nid oes modd galw penderfyniadau a wnaed yn unol â Chynllun B2 y Cynllun Dirprwyo i mewn.
15. Os yw Aelod Cabinet neu Swyddog y Cyngor sydd wedi'u dynodi yn yr Atodlen atodedig fel ymgynghorai yn absennol neu'n methu â gweithredu am reswm arall, gall yr Aelod o'r Cyngor neu'r Swyddog o'r Cyngor enwebu aelod neu swyddog (yn ôl yr achos) arall o'r Cyngor yn ysgrifenedig i weithredu fel ymgynghorai yn eu lle.

Pwerau Cyffredinol Prif Swyddogion

Mae gan y Prif Weithredwr a'r holl Brif Swyddogion y pwerau cyffredinol a nodwyd isod, maent hefyd wedi'u hawdurdodi i gynnal swyddogaethau penodol y Cyngor a'r Weithrediaeth sydd wedi'u dirprwyo iddynt yng Nghynlluniau B1 a B2.

Yn gysylltiedig â'r swyddogaethau a weinyddir gan eu Cyfarwyddiaeth/Swyddfa yn unig, mae gan Brif Swyddogion y pŵer:

1. I gynnal:-
 - (a) y gwaith o reoli eu Cyfarwyddiaeth/Swyddfa o ddydd i ddydd, gan gynnwys: adolygiadau sefydliadol o'r gyfarwyddiaeth, yr adran neu is-adrannau eraill, diwygiadau i'r strwythur staffio presennol y gellir eu hariannu o fewn cyllidebau presennol a/neu gydag unrhyw gyllid ychwanegol y gellir ei dderbyn; cymeradwyo rhestrau byr a gwneud penodiadau parhaol a dros dro i bob swydd o fewn eu cyfarwyddiaeth berthnasol ac eithrio'r rheiny y mae Aelodau yn gyfrifol amdanynt yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006; penderfynu ar geisiadau staff am absenoldeb arbennig.
 - 1.1 yn unol ag adran 222 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynrychioli yn enw'r Cyngor fuddiannau'r preswylwyr mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus a gynhelir ar ran unrhyw Weinidog neu gorff cyhoeddus o dan unrhyw ddeddfiad.
 - 1.2 i arfer pwerau statudol y Cyngor i gael mynediad at dir a safleoedd at ddibenion archwilio, arolygu, cynnal gwaith, ymchwilio i unrhyw fater, cymryd samplau neu at unrhyw ddiben arall y mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi i weithredu, ac i gyflwyno hysbysiadau fel sy'n ofynnol mewn perthynas â nhw.
 - 1.3 i gasglu manylion unigolion sydd â buddiant mewn tir o dan adran 16 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
 - 1.4 i wneud trefniadau ar gyfer darparu cyflenwadau a gwasanaethau gan ac i awdurdodau lleol eraill a chyrrff cyhoeddus (fel y'u diffinnir) o dan Deddf Llywodraeth Leol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 neu ddeddfwriaeth alluogi arall cyhyd â bod y trefniadau yn cydymffurfio â rheoliadau caffael.

- 1.5 i weithredu trosglwyddiad ariannol o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd yn y Rheoliadau Cyllid.
- 1.6 i lofnodi unrhyw ddogfen ar ran y Cyngor/Cabinet sy'n rhoi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor/Cabinet o fewn swyddogaethau'r gyfarwyddiaeth pan awdurdodir nhw i wneud hynny.
- 1.7 i dderbyn y tendr isaf a ddaw i law pan fydd taliad yn cael ei wneud gan y Cyngor, a'r tendr uchaf a ddaw i law pan fydd y Cyngor yn derbyn taliad, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael.
- 1.8 i benderfynu ar geisiadau ar gyfer Budd-dal Tai (gan gynnwys Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn) a Gostyngiad Treth Cyngor, cyn belled â bod y penderfyniad yn cael ei gofnodi yn y ffeil.
- 1.9 i asesu anghenion pobl all fod angen gwasanaethau gofal ac, os yw'n briodol, gallu gofaluwr i ddarparu gofal; i benderfynu, ar sail yr asesiad pa wasanaethau, os o gwbl, dylid eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny; ac i gymryd yr holl gamau priodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys gwneud contractau ar gyfer eu darparu.
- 1.10 i flaenoriaethu ceisiadau unigol i'r Gofrestr Tai ac enwebu ymgeiswyr ar gyfer llety gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn unol â pholisïau'r Cyngor.
- 1.11 i benderfynu ar geisiadau gan berchnogion/preswylwyr i'r Gofrestr Tai, yn unol â pholisïau'r Cyngor.
- 1.12 i benderfynu ar geisiadau am dai nad ydynt efallai yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion Cofrestr Tai a Rheolau Dynodi'r Cyngor, ond yr ystyrir eu bod o natur brys neu sensitif iawn.
- 1.13 i benderfynu ar geisiadau am gymorth gan unigolion di-gartref ac unigolion sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn unol â Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 ac i sicrhau llety dros dro fel sy'n briodol.
- 1.14 i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn unol ag Adran 95A ac Atodlen 4B Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, i gynnig cyfle i osgoi euogfarn am drosedd drwy dalu cosb.
2. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cael blaenoriaeth dros unrhyw rai o'r darpariaethau uchod. Ni ellir defnyddio unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 1 os yw'n gwrthdaro â Chynllun A.
3. Gall pob Prif Swyddog awdurdodi unrhyw Swyddog neu Swyddogion eraill yn y Cyngor yn ysgrifenedig, un ai yn ôl eu henw neu eu swydd, un ai yn gyffredinol neu'n benodol at y diben, i arfer yr holl neu rai o'r pwerau y maent wedi'u hawdurdodi i'w gweithredu, ac eithrio'r pŵer hwn, ar yr amod:
 - (a) bod y swyddog yn adrodd i'r dirprwywr neu'n atebol iddo;
 - (b) bod gan y swyddog lefel briodol o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad;
 - (c) bod y swyddogaethau i'w cyflawni o fewn maes cyfrifoldeb y swyddog hwnnw;
 - (ch) ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud hynny ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth yn effeithiol o dydd i ddydd,

- (d) ei bod yn gyfreithlon gwneud hynny.
- 3.1 Rhaid i Brif Swyddogion baratoi cynllun ysgrifenedig yn awdurdodi unrhyw swyddog arall i arfer pwerau o'r fath. Bydd Prif Swyddogion yn parhau i fod yn atebol am unrhyw gamau neu benderfyniadau a wneir dan awdurdodiad o'r fath, a dylid darparu copi o'r cynllun i'r Swyddog Monitro.
 - 3.2 I osgoi amheuaeth, lle bo is-swyddog yn arfer pŵer, dyletswydd neu swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan swyddog arall o dan y Cynllun hwn, caiff y dynodiad drwy hyn ei awdurdodi fel petai'r Cyngor/Cabinet wedi'i ddirprwyo'n uniongyrchol ac yn benodol.
 4. Os yw swydd Prif Swyddog yn wag neu os nad yw'r Prif Swyddog ar gael, yna yn amodol ar unrhyw drefniadau y darparwyd ar eu cyfer mewn unrhyw gynllun dirprwyo a baratowyd gan Brif Swyddog o dan baragraff 3 uchod, gall y Pennaeth(iaid) Gwasanaeth perthnasol o fewn y Gyfarwyddiaeth honno arfer pwerau dirprwyedig y Prif Swyddog hwnnw cyn belled ag y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu.
 5. Os nad yw'r Prif Weithredwr ar gael, yna'n amodol ar unrhyw drefniadau y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw gynllun dirprwyo a baratowyd gan y Prif Weithredwr o dan baragraff 3 uchod, gall y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodwyd gan y Prif Weithredwr o dro i dro arfer pwerau dirprwyedig y Prif Weithredwr.
 6. Nid oes modd dirprwyo ar gyfer swyddogaethau sy'n effeithio ar Gyfarwyddiaeth arall yn yr Awdurdod nac sy'n cynnwys swyddogaethau Cyfarwyddiaeth, Adran neu Swyddog Unigol y tu allan i Gyfarwyddiaeth y Prif Swyddog.

CYNLLUN A

SWYDDOGAETHAU'R CABINET A DDIRPRWYR I AELODAU UNIGOL Y CABINET

Lle caiff pŵer dirprwyedig ei ddynodi i Aelod unigol o'r Cabinet, a bod yr Aelod hwnnw'n absennol neu'n methu â gweithredu am reswm arall, caiff y pŵer ei ddynodi i'r Arweinydd, ac i'r Dirprwy Arweinydd os yw'r Arweinydd yn absennol.

Mae unrhyw bŵer dirprwyedig yn cynnwys yr awdurdod i gyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu'r pŵer dirprwyedig.

1. SWYDDOGAETHAU SYDD WEDI'U DYNODI I BOB AELOD O'R CABINET

Swyddogaethau Dynodedig	
1.1	Yn amodol ar ofynion paragraff 18 Rheolau'r Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu, gwneud penderfyniadau ar unrhyw fater sydd ym mhortffolio'r Aelod Cabinet (ac eithrio penderfyniadau sy'n groes i'r Fframwaith Polisi neu sy'n groes i'r Gyllideb gymeradwy neu nad ydynt yn llwyr unol â hi) a fyddai, pe byddai oedi, yn achosi niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd.
1.2	Mewn perthynas ag unrhyw gontract sydd â gwerth amcangyfrifedig sy'n fwy na £1,000,000 ond heb fod yn fwy na £5,000,000: <ul style="list-style-type: none"> a) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau; a b) Derbyn y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract (ffurf tendr), neu'r tendr uchaf a dderbyniwyd lle mae'r taliad i'w dderbyn gan y Cyngor ac ymrwymo i Gontract. c) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau, derbyn tendr neu ymrwymo i Gontract yn unol ag unrhyw eithriad o dan Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor. d) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau, derbyn tendr neu ymrwymo i Gontract yn unol ag unrhyw hepgoriad a ganiateir o dan Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.
1.3	Mewn perthynas â gwasanaethau sydd ym mhortffolio'r Aelod Cabinet, awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol arall neu gorff cyhoeddus yn unol â'r pŵerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 lle bo amcangyfrif o werth y tendr arfaethedig yn fwy na £1,000,000 ond heb fod yn fwy na £5,000,000.
1.4	Awdurdodi cael gwared â nwyddau dros ben a gasglwyd mewn perthynas â gwasanaethau sydd ym mhortffolio'r Aelod Cabinet pan fo'r amcangyfrif o gyfanswm eu gwerth yn fwy na £100,000 ond heb fod yn fwy na £200,000.
1.5	Datgan bod tir neu adeiladau a ddefnyddir mewn perthynas â gwasanaethau sydd ym mhortffolio'r Aelod Cabinet yn ddiangen bellach.
1.6	Cymeradwyo, yn amodol ar broses y gyllideb: <ul style="list-style-type: none"> (1) Ffioedd a chostau am wasanaethau newydd yn unol ag unrhyw bolisi codi tâl perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet; a (2) Cynnydd mewn ffioedd a chostau presennol sy'n unol ag unrhyw bolisi codi tâl perthnasol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, sy'n angenrheidiol i adlewyrchu chwyddiant neu gynnydd arall mewn costau.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
1.7	Awdurdodi penodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol yr amcangyfrifir y bydd eu ffioedd yn fwy na £100,000.
1.8	Ymateb yn ffurfiol ar ran y Cyngor Bwrdeistref Sirol i unrhyw Bapur neu Gylchlythyr gan y Llywodraeth ac unrhyw Gyfarwyddeb ddrafft gan yr Undeb Ewropeaidd.

2. SWYDDOGAETHAU SYDD WEDI'U DYNODI I'R DIRPRWY ARWEINYDD A'R AELOD CABINET DROS ADNODDAU

<u>Swyddogaethau a ddynodwyd</u>	
2.1	Awdurdodi arfer hawliau rhagbrynu sydd wedi'u breinio yn y Cyngor.
2.2	Dosbarthu cronfeydd Rhaglenni Cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned i hwyluso prosiectau cymunedol, ar argymhelliad y Prif Swyddog Cyllid.
2.3	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle bo swm y cyllid yn fwy na £50,000.

3. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R AELOD CABINET DROS GYMUNEDAU

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.1	<p>(a) Cymeradwyo gwneud ceisiadau am orchmynion yn unol ag Adran 116 Deddf Prifffyrdd 1980 ac Adrannau 247, 248 a 249 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a chymeradwyo gwneud, diwygio ac amrywio gorchmynion yn unol ag unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y deddfiadau canlynol (neu mewn unrhyw newid, ailddeddfiad neu ddiwygiad statudol ohonynt): Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994; Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847;</p> <p>(b) Cadarnhau, lle bo gan y Cyngor bŵer i wneud hynny, unrhyw Orchymyn arfaethedig a wneir yn unol â pharagraff (a) uchod lle nad oes gwrthwynebiad neu lle bo unrhyw wrthwynebiad a wnaed wedi'i dynnu'n ôl;</p> <p>(c) Lle nad oes gan y Cyngor bŵer i bennu Gorchymyn arfaethedig, cyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at gorff pennu priodol (e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Llys Ynadon neu'r Llys Sirol) fel sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.</p>
3.2	Penderfynu enw a/neu rifau stryd, neu newid neu ddiwygio enw a/neu rifau stryd, yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925, ac awdurdodi unrhyw gamau gweithredu yr ystyrir eu bod yn briodol o ganlyniad i wneud penderfyniad o'r fath.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.3	Penderfynu ar geisiadau i ddefnyddio meysydd parcio'r Cyngor at ddibenion sydd heb eu hawdurdodi gan y Gorchymyn Lleuedd Parcio oddi ar y Stryd perthnasol, a gwahardd defnyddio lleuedd parcio neu ran ohonynt pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny.
3.4	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol pan fo swm y cyllid yn fwy na £50,000.

4. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CYMDEITHASOL A CHYMORTH CYNNAR

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
4.1	Cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau yn lefel y ffioedd a delir ar gyfer lleoliadau a wneir yng Nghartrefi Preswyl y Sector Annibynnol ac mewn Cartrefi Nyrsio o fewn y Fwrdeistref Sirol.
4.2	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol sy'n destun cytundeb gwasanaeth ffurfiol lle bo swm y cyllid yn fwy na £50,000.
4.3	Cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau yn lefelau grantiau, ffioedd a lwfans i Blant a Phobl Ifanc a'u gofalywyr mewn perthynas â: Gofal Maeth i Blant; Gofal Preswyl; Gwasanaethau Mabwysiadu; Gwasanaethau Ôl-ofal; Gwasanaethau Gofal Seibiant; Gyrwyr Gwirfoddol.
4.4	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor lle bo swm y grant yn fwy na £50,000.
4.5	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle bo swm y cyllid yn fwy na £50,000.

5. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R AELOD CABINET DROS ADDYSG AC ADFYWIO

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
5.1	Mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd Corfforaethol, penodi llywodraethwyr ysgol AALI ychwanegol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder.
5.2	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor lle bo swm y grant yn fwy na £50,000.
5.3	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle bo swm y cyllid yn fwy na £50,000.

6. **SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R AELOD CABINET DROS LESIANT
A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Swyddogaethau Dynodedig	
6.1	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle bo swm y cyllid yn fwy na £50,000

CYNLLUN B1

SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYR I BRIF SWYDDOGION SY'N AMODOL AR YMGYNGHORI A GALW I MEWN

1. SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYR I BOB PRIF SWYDDOG

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR/CABINET:

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
1.1	Awdurdodi gwaredu nwyddau dros ben a geir mewn perthynas â gwasanaethau y mae'r Prif Swyddog dan sylw yn gyfrifol amdanynt pan fo amcangyfrif cyfanswm eu gwerth yn fwy na £50,000 ond heb fod yn fwy na £100,000.	<p>(1) <u>SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR</u> Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth, sy'n cynnwys y gwasanaeth y cafwyd y nwyddau ar ei gyfer iddo hefyd, neu os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer.</p> <p>(2) <u>SWYDDOGAETHAU'R CABINET</u> Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol</p>
1.2	Awdurdodi penodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol yr amcangyfrifir bod eu ffi yn fwy na £50,000 ond nid yn fwy na £100,000.	<p>(1) <u>SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR</u> Cadeirydd unrhyw Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor hefyd wedi dirprwyo'r swyddogaeth, sy'n cynnwys y gwasanaeth y bydd y ffioedd neu'r costau'n daladwy amdano iddo neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer.</p> <p>(2) <u>SWYDDOGAETHAU'R CABINET</u> Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol</p>

B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
1.3	Awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 pan fo'r amcangyfrif o werth y tendr arfaethedig yn fwy na £100,000 ond heb fod yn fwy na £1,000,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
1.4	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol sy'n amodol ar gytundeb gwasanaeth ffurfiol lle mae swm y cyllid yn fwy na £10,000 ond heb fod yn fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
1.5	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle bo swm y cyllid yn fwy na £10,000 ond heb fod yn fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol

2. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R PRIF WEITHREDWR (NEU OS YW'N ABSENNOL NEU'N METHU Â GWEITHREDU AM RESWM ARALL, Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL A NODWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR O DRO I DRO)

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
2.1	Gwneud penderfyniad ar unrhyw fater na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor neu unrhyw Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo (ac eithrio penderfyniad y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wneud ei hun yn ôl y gyfraith).	<p>(1) Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo, neu os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;</p> <p>(2) Arweinydd/Arweinwyr pob plaid wleidyddol y mae Aelodau'r Cyngor wedi'u rhannu iddynt;</p> <p>(3) Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr Corfforaethol (os yw hynny'n berthnasol) sy'n gyfrifol am y swyddogaeth berthnasol</p>

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
2.2	Awdurdodi gwariant ychwanegol o'r rhaglen gyfalaf ar gyfer cynlluniau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, yn amodol ar uchafswm o £100,000 a'r cyllid sydd ar gael, na all aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor am resymau brys.	<p>(1) Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo, neu os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;</p> <p>(2) Y Swyddog Adran 151;</p>

		<p>(3) Y Swyddog Monitro (dim ond os yw'r dirprwyo wedi'i is-ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151).</p> <p>(4) Yr Arweinydd, neu'r Aelod Cabinet os yw'n absennol</p>
--	--	--

3. **SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R SWYDDOG MONITRO**

B. **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR/CABINET:**

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
3.1	Cyfarwyddo cwnsler neu gyflogi cyfreithwyr allanol mewn perthynas ag unrhyw fater cyfreithiol sy'n effeithio ar y Cyngor lle amcangyfrifir bod cost gwneud hynny yn fwy na £100,000.	<p><u>SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR</u> Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo, neu os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer.</p> <p><u>SWYDDOGAETHAU'R CABINET</u> Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol</p>
3.2	Awdurdodi setlo achosion sifil a/neu droseddol, p'un a ydynt wedi dechrau neu ymlaen llaw, lle bo'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor neu iddo yn fwy na £100,000.	<p><u>SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR</u> Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r corff wedi dirprwyo'r swyddogaeth berthnasol iddo, neu os nad oes pwyllgor neu gorff o'r fath, y Maer.</p> <p><u>SWYDDOGAETHAU'R CABINET</u> Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol</p>

C. **SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
3.3	Arfer y swyddogaethau a nodwyd yn Neddf Delwyr Metel Sgrap 2013	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol
3.4	Pennu dyfarnu Grantiau Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl Gydol Oes, a dyfarnu'r Grantiau Atodol Cyfleusterau i'r Anabl sy'n weddill, yn unol â Pholisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol
3.5	Cynyddu neu ostwng yr ardrethi sy'n daladwy am unrhyw grantiau statudol a weinyddir o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac	(1) Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol.

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai/Ymgynghoreion</u>
	unrhyw grantiau anstatudol a weinyddir o dan Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.	(2) Y Prif Swyddog Cyllid
3.6	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol

4. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADDYSG A CHEFNOGAETH I'R TEULU

A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
4.1	Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau cyhoeddus o gynigion i agor a chau ysgolion, ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath.	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol
4.2	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol

5. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	<u>Swyddogaethau Diprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
5.1	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
5.2	Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau cyhoeddus o gynigion i agor a chau ysgolion, ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
5.3	Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 mewn perthynas â phenodi aelodau newydd o dro i dro i Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr (ac eithrio penodi aelodau etholedig y Cyngor) wrth i lefydd gwag ymddangos.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
5.4	Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005 mewn perthynas â phenodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac aelodau i Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr o dro	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
	i dro (ac eithrio penodi aelodau etholedig y Cyngor) wrth i leoedd gwag ymddangos.	

6. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL CYMUNEDAU

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

	<u>Swyddogaethau Dirprwyedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
6.1	Darparu arsylwadau ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â cheisiadau i garthu ar y môr a gyflwynir i Ystâd y Goron o dan Weithdrefn Barn y Llywodraeth.	Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb

B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
6.2	Gwneud penderfyniad mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio brys y Cyngor, na all aros tan gyfarfod nesaf y Cabinet am resymau brys.	Yr Arweinydd, neu'r Dirprwy Arweinydd yn ei absenoldeb
6.3	Awdurdodi cynnal cynlluniau amwynder dinesig.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.4	Cynnal prosiectau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy o fewn y Fwrdeistref Sirol.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.5	Cymeradwyo neu ddiwygio rhaglenni ar gyfer paratoi dogfennau polisi gofynnol yn ôl Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.6	Darparu arsylwadau ar ran y Cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cynigion i ddiwygio "Canllawiau Cynllunio Cymru" a nodiadau cynghori technegol berthnasol.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.7	Darparu arsylwadau ar ran y Cyngor i'r Adran Lywodraethol berthnasol am gynigion i ddiwygio polisi cynllunio ac amgylcheddol cenedlaethol.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol.
6.8	Cychwyn prosiectau i wella a rheoli addysg amgylcheddol o fewn y Fwrdeistref Sirol.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.9	Cynyddu neu ostwng y ffioedd a godir o dan y Rheoliadau	(1) Yr Aelod Cabinet â'r

	<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
	Adeiladu o ddim mwy na 10%.	swyddogaeth berthnasol (2) Y Prif Swyddog Cyllid
6.10	Awdurdodi gweithredu cynlluniau Adfer Tir, Diogelu Arfordirol a Draenio Tir nad yw amgangyfrif eu gwerth yn fwy na £100,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.11	Adolygu cyfyngiadau rhagnodedig ar gyfer cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynlluniau grant a weithredir gan y Cyngor yn unol â'i bwerau datblygu economaidd.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.12	Darparu arsylwadau ar ran y Cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynigion i ddiwygio polisi a rheoliadau Priffyrdd a Thrafnidiaeth.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.13	Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiad cyhoeddus o gynigion i agor ac i gau cyfleusterau cymunedol, ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.14	Awdurdodi, a chytuno ar y telerau ar gyfer, cael gwared â thir ac adeiladau, p'un ai drwy eu gwerthu'n rhydd-ddaliadol neu eu prydlesu, cyhyd â bod amcangyfrif gwerth premiwm y pris gorau y gellid disgwyl ei gael yn ddim mwy na £500,000.	(1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol (2) Swyddog Monitro (3) Y Swyddog Adran 151, neu'r Dirprwy Swyddog Adran 151 os oes angen is-ddirprwyo.
6.15	Awdurdodi, a chymeradwyo telerau ar gyfer, unrhyw brydles a ddyfernir i'r Cyngor neu ganddo mewn perthynas â thalu rhent, gan gynnwys unrhyw rent sy'n fwy na £100,000 y flwyddyn sy'n daladwy:	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
	(a) gan y Cyngor; neu (b) i'r Cyngor.	
6.16	Awdurdodi a chytuno ar ryddhau cyfamodau cyfyngol sydd o blaid neu'n rhwymo'r Cyngor am swm sy'n fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet sydd â'r swyddogaeth berthnasol.
6.17	Awdurdodi a chytuno ar delerau ildio prydlesi gan y Cyngor neu iddo, gan gynnwys talu neu dderbyn premiwm sy'n fwy na £50,000.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol

	<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	<u>Ymgynghorai</u>
6.18	Awdurdodi, a chytuno ar y telerau ar gyfer, cael gwared â thir ac adeiladau nad yw amcangyfrif o'r gwerth yn fwy na £300,000, ar bris is lle ystyrir bod: Y gwarediad er budd llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol holl neu ran o ardal yr Awdurdod, neu rai neu'r holl bobl sy'n preswyllo neu sy'n bresennol yn ardal yr Awdurdod; a bod y gwarediad yn unol â Strategaeth Gwaredu a Chanllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol cymeradwy'r Awdurdod; a bod tanwerth y gwarediad yn werth £300,000 neu'n is, cyn belled nad yw'r gwarediad yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad Cymorth Gwladwriaethol.	1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol 2) Swyddog Monitro 3) Y Swyddog Adran 151, neu'r Dirprwy Swyddog Adran 151 os oes angen is-ddirprwyo.
6.19	Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, caffael tir neu adeiladau mewn perthynas â chynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor, neu gategori penodol o gynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor, cyn belled nad yw'r caffaeliad yn uwch na chyfanswm yr amcangyfrifiad cyfalaf ar gyfer y categori hwnnw o'r cynllun.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol
6.20	Arfer unrhyw rai o bwerau'r Cyngor mewn perthynas â Harbwr Porthcawl yn Rhan V Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987.	Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol

CYNLLUN B2

SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWIR I'R BRIF SWYDDOGION HEB YMGYNGHORI NA GALW I MEWN.

1. SWYDDOGAETHAU SYDD WEDI'U DYNODI I BOB PRIF SWYDDOG

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR/CABINET:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
1.1	Awdurdodi a phenodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol nad yw eu ffioedd yn fwy na £50,000.
1.2	Awdurdodi gwneud cais am gymorth grant, a derbyn ceisiadau ar ei gyfer, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff priodol eraill at ddibenion cysylltiedig â materion o fewn y Gyfarwyddiaeth.
1.3	Mewn perthynas ag unrhyw gontract nad yw amcangyfrif ei werth yn fwy na £1,000,000: a) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau; a b) Derbyn y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract (ffurf tendr), neu'r tendr uchaf a dderbyniwyd lle mae'r taliad i'w dderbyn gan y Cyngor ac ymrwymo i Gontract. c) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau, derbyn tendr neu ymrwymo i Gontract yn unol ag unrhyw eithriad o dan Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor d) Awdurdodi gwahoddiad am dendrau, derbyn tendr neu ymrwymo i Gontract yn unol ag unrhyw hepgoriad a ganiateir o dan Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.

B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
1.4	Awdurdodi cael gwared â nwyddau dros ben a gasglwyd mewn perthynas â gwasanaethau y mae'r Prif Swyddog dan sylw yn gyfrifol amdanynt nad wy amcangyfrif eu holl werth yn fwy na £50,000.
1.5	Awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 lle nad yw amcangyfrif o werth y tendr arfaethedig yn fwy na £100,000.
1.6	Cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i gynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â rhwymedigaethau Deddf Diogelu Data 1998 mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro.

2. SWYDDOGAETHAU SYDD WEDI'U DYNODI I'R PRIF WEITHREDWR

A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	Swyddogaethau Dynodedig
2.1	Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor bŵer i'w cymryd i adfer Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ar Dreth Gyngor, gan gynnwys cychwyn achosion a chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r achosion.
2.2	Penderfynu ar: (a) geisiadau am ryddhad ardrethi gan elusennau yn ôl disgrisiwn; (b) ceisiadau am ryddhad ardrethi ar sail caledi.
2.3	Argymhell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion troseddol mewn perthynas â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013.
2.4	Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor bŵer i'w cymryd ar gyfer gweinyddu cosbau ariannol yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013.
2.5	Cyfeirio achosion o amhriodoldeb ariannol gan staff y Cyngor neu aelodau etholedig at yr Heddlu i'w hymchwilio.
2.6	Penderfynu ar geisiadau gan unigolion neu gyrrff am gymorth ariannol nad oes gan swyddog arall bŵer dirprwyedig i'w pennu.
2.7	Prynu offer ar ran pob Cyfarwyddiaeth gan ddefnyddio benthyciad o dan y Cod Materion Ariannol, gan ystyried y Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl.
2.8	Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor bŵer i'w cymryd ar gyfer adfer rhent, symiau dyledus dan forgeisiau'r Cyngor ac incwm arall sy'n ddyledus i'r Cyngor, gan gynnwys argymhell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion Llys Sirol.
2.9	Pennu cyfraddau llog morgais yn unol â gofynion statudol.
2.10	Penderfynu a chymeradwyo ceisiadau i drosglwyddo morgeisi'r Cyngor a cheisiadau i forgeiswyr ryddhau rhan o eiddo wedi'i forgeisio o'r morgais.
2.11	Penderfynu, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, ar geisiadau ar gyfer ailforgeisio neu drosglwyddo morgais eiddo a brynwyd â chymorth o dan Gynllun Homefinder.
2.12	Cymeradwyo ceisiadau am ganiatâd i drosglwyddo llog morgais pan yn fodlon bod gan y trosglwyddwr adnoddau digonol i dalu ad-daliadau'r morgais ac nad oes unrhyw ôl-

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
	ddyledion gan y cyfrif morgais.
2.13	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sydd ei angen er mwyn gorfodi Adran 117 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac argymhell wrth Gyfarwyddwr Corfforaethol Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion troseddol os eir yn groes i'r darpariaethau hynny.
2.14	Penderfynu ar ddyfarnu Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i'r Anabl a phob Grant a Benthyciad yn ôl Disgresiwn, a phenderfynu a ddylid talu ffioedd rhesymol a phriodol mewn perthynas â nhw, yn unol â Pholisi Adnewyddu Tai y Sector Preifat ac Addasiadau i Bobl Anabl, ac eithrio dyfarnu Grantiau Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl Gydol Oes.
2.15	Awdurdodi, o dan yr amgylchiadau priodol, ildio'r cyfnod cymhwyso blaenorol ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid a nodwyd ym Mholisi Adnewyddu Tai y Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â cheisiadau am y gwahanol fathau o grantiau sydd wedi'u cynnwys ynddo.
2.16	Dyfarnu yn ôl disgresiwn i atal digartrefedd i'r unigolion hynny y byddai gan yr Awdurdod ddyletswydd i roi llety iddynt fel arall yn unol â'r ddeddfwriaeth hon.
2.17	Ystyried a diwygio'r ffioedd proffesiynol sy'n daladwy i asiantau a gyflogwyd gan ymgeiswyr am grantiau a weinyddir gan Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
2.18	Diwygio taliadau grantiau mewn perthynas ag unrhyw grantiau statudol sydd wedi'u cymeradwyo o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac unrhyw grantiau anstatudol sydd wedi'u cymeradwyo o dan Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr lle: <ul style="list-style-type: none"> a) Ystyrir bod gwaith ychwanegol yn angenrheidiol, ac nad oedd modd ei ragweld adeg cymeradwyo'r grant yn wreiddiol; b) Nad yw gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn y gymeradwyaeth wreiddiol yn angenrheidiol bellach.

3. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R SWYDDOG MONITRO

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.1	Penderfynu ar geisiadau i roi neu adnewyddu cymeradwyaeth safleoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a phartneriaethau sifil yn unol ag Adran 26(1) (bb) Deddf Priodasau 1949 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004, a thynnu cymeradwyaeth o'r fath yn ôl.
3.2	Cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i gyflawni Gorchmynion Prynu Gorfodol.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.3	Arfer unrhyw bwerau sydd gan y Cyngor o dan ddarpariaethau unrhyw gontract mewn perthynas â therfynu neu fforffedu contract.
3.5	Arfer swyddogaethau'r Cyngor yn dilyn cyflwyno Hysbysiad Prynu neu Hysbysiad Malltod, gan gynnwys cyflwyno hysbysïadau neu wrth-hysbysïadau.
3.6	Penodi swyddogion awdurdodedig at ddibenion Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.
3.7	Caniatáu ceisiadau am drwyddedau cerbydau hackney, cerbydau llogi preifat, a gweithredwr llogi preifat, a thynnu trwyddedau presennol yn ôl pan roddir trwyddedau cerbydau yn eu lle, yn unol â Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 fel sy'n briodol.
3.8	Gwahardd trwyddedau cerbydau hackney a cherbydau llogi preifat yn unol ag adrannau 60 a 68 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
3.9	Caniatáu cyflwyno, gwahardd a/neu dynnu'n ôl, ac ailganiatáu trwyddedau presennol gyrwyr cerbydau hackney a cherbydau llogi preifat yn unol â chanllawiau, amodau neu gyfyngiadau perthnasol fel y gall y Pwyllgor Trwyddedu ei ragnodi ac yn unol â Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1975 fel sy'n briodol.
3.10	<p>Caniatáu cyflwyno neu adnewyddu'r ceisiadau a nodir isod, cyn belled nad oes gwrthwynebiad neu sylwadau wedi'u derbyn gan gyrff statudol neu'r cyhoedd:</p> <p>(a) Trwyddedau Difyrro â Gwobrau (ac eithrio'r rhai mewn perthynas ag arcedau)</p> <p>(b) Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd</p> <p>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel sy'n briodol.</p>
3.11	Amrywio'r amodau sydd ynghlwm â Thrwyddedau Safle sy'n cynnwys rhoi cydsyniad ysgrifenedig am weithgarwch os nad oes gwrthwynebiadau neu sylwadau wedi'u derbyn gan awdurdodau cyfrifol na'r cyhoedd yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.
3.12	<p>Caniatáu cyflwyno ac adnewyddu ceisiadau am drwyddedau, caniatâd a chofrestriadau, a gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol er mwyn gorfodi unrhyw rai o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y deddfiadau a restrir isod (yn amodol ar unrhyw bolisiâu a ragnodwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu):</p> <p style="text-align: center;">Deddf Casglu o Dŷ i Dŷ 1939 Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916</p>

Swyddogaethau Dynodedig	
3.13	<p>Pennu neu benderfynu (fel y bo'n briodol) o dan Deddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â'r materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Ceisiadau am drwyddedau personol (os na cheir unrhyw wrthwynebiad); (b) Ceisiadau am dystysgrifau mangre/mangre clwb (os na cheir unrhyw sylwadau perthnasol); (c) Ceisiadau am ddatganiadau dros dro (os na cheir unrhyw gynrychiolaeth berthnasol); (ch) Ceisiadau i amrywio tystysgrifau mangre/mangre clwb (os na cheir unrhyw sylwadau perthnasol); (d) Ceisiadau i amrywio goruchwyliwr mangre dynodedig (os na cheir gwrthwynebiad gan yr heddlu); (dd) Ceisiadau i ddiddymu unigolyn fel goruchwyliwr mangre dynodedig; (e) Ceisiadau ar gyfer trosglwyddo trwydded mangre (os na cheir gwrthwynebiad gan yr heddlu); (f) Ceisiadau am awdurdodau dros dro (os na cheir gwrthwynebiad gan yr heddlu); (ff) P'un a yw cwyn neu sylw yn amherthnasol, yn wacsaw neu'n flinerus ac ati. (g) Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad neu wrth-hysbysiad) sy'n angenrheidiol er mwyn gorfodi unrhyw rai o ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003. (ng) Gwneud unrhyw beth y mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd neu bŵer i'w wneud mewn perthynas â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. (h) Penderfynu ar geisiadau a dderbynnir o dan y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Amrywiadau Bach i Drwyddedau Mangreoedd a Mangreoedd Clwb) 2009 yn unol â Chanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol. (l) Penderfynu ar geisiadau a dderbynnir o dan y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Goruchwyllo Gwerthu Alcohol mewn Eglwysi a Neuaddau Pentref a safleoedd cymunedol) 2009 lle na dderbynnir hysbysiad o wrthwynebiad gan Brif Swyddog yr Heddlu.
3.14	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor ddyletswydd neu bŵer i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw rai o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.</p>
3.15	<p>Penderfynu ar geisiadau i ddiwygio'r gofrestr tir comin yn unol â Deddf Cofrestru Tir Comin 1965 a Deddf Tiroedd Comin 2006, lle na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn dilyn proses ymgynghori statudol.</p>
3.16	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw rai o ddarpariaethau Deddf Cofrestru Tir Comin 1965 a Deddf Tiroedd Comin 2006.</p>
3.17	<p>Cyflwyno ceisiadau i adolygu trwyddedau mangreoedd yn unol ag Adran 197 Deddf Gamblo 2005.</p>

Swyddogaethau Dynodedig	
3.18	<p>Pennu neu benderfynu (fel y bo'n briodol) o dan Ddeddf Gamblo 2005 mewn perthynas â'r materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Ceisiadau am drwyddedau mangreodd lle nad oes sylwadau wedi'u derbyn neu lle bo'r sylwadau hynny wedi'u tynnu'n ôl. (b) Ceisiadau am amrywiad i drwydded lle nad oes sylwadau wedi'u derbyn neu lle bo'r sylwadau hynny wedi'u tynnu yn ôl. (c) Ceisiadau i drosglwyddo trwydded lle nad oes sylwadau wedi'u derbyn gan y Comisiwn Gamblo; (ch) Ceisiadau am ddatganiad dros dro lle nad oes sylwadau wedi'u derbyn neu lle bo'r sylwadau hynny wedi'u tynnu'n ôl; (d) Ceisiadau am drwyddedau gemau clwb/peiriannau clwb lle nad oes gwrthwynebiad wedi'i dderbyn neu lle bo'r gwrthwynebiad wedi'i dynnu'n ôl; (dd) Ceisiadau am drwyddedau eraill; (e) Canslo trwyddedau peiriannau gemau mangreodd wedi'u trwyddedu; (f) Ceisiadau am hysbysiad defnydd achlysurol; (ff) Ceisiadau am hysbysiad defnydd dros dro; (g) Pennu p'un a yw sylwadau yn wacsaw neu'n flinerus neu na fyddant yn dylanwadu ar benderfyniad yr Awdurdod mewn perthynas â chais. (ng) Ceisiadau am gofrestru Loteri Cymdeithas Fach.
3.19	Arfer unrhyw bŵer a roddwyd i'r Cyngor i adfer unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd ganddo wrth arfer pŵer a ddirprwywyd iddo gan y Cynllun Dirprwyo hwn.
3.20	Cyflwyno trwyddedau'n awdurdodi defnyddio tir fel safle carafanau ("trwyddedau safle") yn unol ag Adran 3(3) Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.
3.21	Trwyddedu defnyddio anheddau symudol a safleoedd gwerysilla yn unol ag Adran 268(1) Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936.
3.22	Trwyddedu safleoedd ar gyfer aciwbigo, tatwio ac electrolysis yn unol ag Adran 13 i 17 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.
3.23	Trwyddedu delwyr helgig a lladd a gwerthu helgig yn unol â Deddf Helgig 1831.
3.24	Cofrestru neu gymeradwyo sefydliadau bwyd yn unol ag Erthygl 31 Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd 882/2004.
3.25	Trwyddedu safleoedd ar gyfer bridio cŵn yn unol ag Adran 1 Deddf Bridio Cŵn 1973 ac Adran 1 Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999.
3.26	Trwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus yn unol ag Adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.27	Rhoi caniatâd i weithredu uchelseinydd yn unol ag Atodlen 2 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993.
3.28	Trwyddedu a chofnodi symudiadau geifr, defaid, gwartheg, moch a cheirw yn unol â darpariaethau Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003.
3.29	Cymeradwyo sefydliadau cynnyrch penodol sy'n destun cymeradwyaeth dan ddarpariaethau Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd 853/2004.
3.30	Yr holl swyddogaethau o dan y "darpariaethau statudol perthnasol" yn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn perthynas â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, i'r graddau y caiff y swyddogaethau hynny eu cyflawni ac eithrio yng nghapasiti'r Cyngor fel cyflogwr.
3.31	Y swyddogaethau a ddisgrifir ym mharagraffau (2), (3) a (4) Rheoliad 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 i'r graddau y mae modd eu harfer mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau a restrir.
3.32	Cyflwyno ceisiadau i adolygu trwyddedau mangreoedd yn unol ag Adran 197 Deddf Gamblo 2005.
3.33	Penderfynu ar geisiadau a delio â phob mater arall sy'n ymwneud â gweinyddu a gorfodi Deddf Hypnotiaeth 1952.

B SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR/CABINET:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
3.34	Cychwyn ac amddiffyn yr holl achosion sifil a throseddol (gan gynnwys apeliadau) ar ran y Cyngor ac unrhyw sefydliad arall, ac awdurdodi sefydliadau eraill i wneud hynny ar ran yr Awdurdod hwn fel y bo'n briodol, pan fônt wedi'u cychwyn neu ymlaen llaw, heblaw am achosion lle bo swyddog arall o'r Cyngor wedi'i ddynodi â swyddogaeth debyg (ac eithrio aelodau staff yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol), a chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â chynnal achosion fel y gwêl yn briodol, gan gynnwys eu tynnu yn ôl neu eu terfynu.
3.35	Awdurdodi setlo achosion sifil a/neu droseddol, p'un a ydynt wedi cychwyn neu ymlaen llaw, lle nad yw'r swm sy'n daladwy i'r Cyngor neu'n daladwy ganddo yn fwy na £100,000.
3.36	Rhoi cyfarwyddyd i'r Cwnsler neu gyfathrebu â chyfreithwyr allanol mewn perthynas ag unrhyw fater cyfreithiol sy'n effeithio ar y Cyngor, lle amcangyfrifir nad yw cost gwneud hynny'n fwy na £100,000.

Swyddogaethau Dynodedig	
3.37	Awdurdodi staff Gwasanaethau Cyfreithiol i ymddangos ar ran y Cyngor yn achosion y llys sirol neu'r llys ynadon yn unol ag Adran 60 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ac Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972.
3.38	Cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i ddiogelu'r Awdurdod a/neu alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau Statudol ac o dan y Gyfraith Gyffredin.
3.39	Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau statudol yn hawlio gwybodaeth mewn perthynas â buddiannau mewn tir a/neu ddefnydd o dir.
3.40	Rhoi tystysgrif neu hysbysiad sydd ei hangen at ddiben cofrestru unrhyw ffi statudol neu ffi arall yng Nghofrestrfa Tir EM ar ran y Cyngor.
3.41	Gweithredu unrhyw bwerau sydd ar gael i'r Cyngor o dan ddarpariaethau unrhyw gontract sy'n gysylltiedig â therfynu neu fforffedu'r contract.

C SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

C SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

Swyddogaethau Dynodedig	
3.42	Cyhoeddi trwyddedau ar gyfer lleoedd parcio yn unol ag Adrannau 32(1) a 35(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
3.43	Cymryd camau priodol i orfodi unrhyw daliadau statudol dros safleoedd sy'n bodoli o blaid y Cyngor.
3.44	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor, lle nad yw swm y grant yn fwy na £10,000.
3.45	Awdurdodi datgladdiadau ar ôl derbyn unrhyw ganiatâd sydd ei angen.
3.46	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau canlynol neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt: Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 Pŵer i ddal ac atafaelu ceffylau crwydr. Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Pŵer i ddal ac atafaelu anifeiliaid crwydr. Adran 15 Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Pŵer i gyflwyno hysbysiad yn gofyn am Adran 19 waith i waliau parti neu waliau terfyn. Deddf Adeiladu 1984 – Adran 77 Pŵer i gyflawni gwaith i adeiladau peryglus ac adfer costau. Deddf Adeiladu 1984 – Adran 78 Mesurau brys ar gyfer trin strwythurau peryglus

Swyddogaethau Dynodedig	
3.47	<p>Cyflwyno Hysbysiadau Gwella a Hysbysiadau Gwahardd Brys o dan y darpariaethau statudol canlynol:</p> <p>(a) Deddf Diogelwch Bwyd 1990; Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.</p> <p>(b) Cyflwyno Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Cadw, Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a gwneud ceisiadau am Orchmynion Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid o dan Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.</p>
3.48	Er gwaethaf unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Dirprwyo hwn, mae gan y Swyddog Monitro bŵer i gymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n darparu dyletswyddau neu bwerau i'r Cyngor.
3.49	Cynnal goruchwyliaeth mewn perthynas ag oedran o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
3.50	Cymeradwyo a gweithredu cytundebau a wneir yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
3.51	Awdurdodi Swyddogion y Cyngor i ymddangos ar ran y Cyngor mewn achosion llys ynadon yn unol ag Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gael cymeradwyaeth ar gyfer awdurdodiadau a hysbysiadau o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
3.52	Gwneud ceisiadau i'r Llys Ynadon am warant i gael mynediad at dir o dan Adran 196B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
3.53	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, ac eithrio Gorchmynion Diogelu Gofodau Cyhoeddus fel y nodwyd yn Rhan 4, Pennod 2 y Ddeddf.
3.54	Asesu a yw unigolyn yn gymwys i gael bathodyn yn ôl diffiniad Adrannau 21-21C Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a chyflwyno'r bathodyn neu brosesu gweithdrefn apelio lle bo'n briodol.
3.55	Gweithredu fel yr unigolyn ar y lefel briodol wedi'i ddynodi gan y Cyngor i gynnal adolygiad ar unrhyw benderfyniad yn unol â darpariaethau Rhan VII Deddf Tai 1996 a Rhan II Deddf Tai (Cymru) 2014.

**4. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL
ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
4.1	Cychwyn achosion am fethiannau o ran presenoldeb yn yr ysgol yn unol ag Adran 444 Deddf Addysg 1996.
4.2	Cymeradwyo, yn dilyn ymgynghoriad, ddiwygiadau i fformiwla ariannu ysgolion y Cyngor.
4.3	Gwneud dyfarniadau yn ôl disgrisiwn i fyfyrwyr mewn amgylchiadau sydd y tu allan i'r canllawiau arferol sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyllid a dyfarniadau.
4.4	Pennu ac awdurdodi gwariant ar brosiectau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu cymeradwyo'n benodol.
4.5	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet neu'r Cyngor, lle nad yw swm y grant yn fwy na £10,000.
4.6	Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y swyddogaeth addysg, penodi llywodraethwyr ysgol AALI ychwanegol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder.
4.7	Gwneud trefniadau cytundebol addas ar gyfer darparu cludiant i'r ysgol.
4.8	Terfynu contractau cludiant ysgol os yw'r contractwr yn mynd yn groes i'r contract.

5. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
5.1	Derbyn unigolion sy'n dioddef o anhwylder meddyliol i warcheidiaeth.
5.2	Cymeradwyo gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol fel rhai sydd â chymhwysedd priodol i drin unigolion sy'n dioddef o anhwylder meddyliol.
5.3	Arfer pŵer Dirprwy pan fo'r Llys Gwarchod yn penodi hynny.
5.4	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol ac i unigolyn lle nad yw swm y cyllid yn fwy na £100,000.
5.5	Awdurdodi cau canolfannau hamdden dros dro neu amrywio eu horiau agor.
5.6	Cyflawni swyddogaethau Perthynas Agosaf yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1984 yn dilyn penodiad gan y Llys Sirol neu ar awdurdod yr unigolyn sydd wedi'i nodi fel perthynas agosaf y claf.
5.7	Llofnodi cytundeb tenantiaeth yn unol â gorchymyn y Llys Gwarchod ar ran unigolyn neu unigolion a enwyd sydd â diffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
5.8	Awdurdodi, a chytuno ar y telerau ar gyfer, cytundebau talu gohiriedig a ffioedd cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac awdurdodi cofrestru'r ffioedd cyfreithiol yn y Gofrestrfa Tir ar ran y Cyngor.
5.9	Pennu ac awdurdodi gwariant ar brosiectau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u cymeradwyo'n benodol.
5.10	Ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr <ul style="list-style-type: none"> (a) Cymeradwyo unigolyn fel rhiant maeth; (b) Penderfynu, yn dilyn adolygiad, bod rhiant maeth a thŷ'r rhiant maeth yn dal i fod yn addas, a bod telerau cymeradwyaeth rhiant maeth yn dal i fod yn briodol; (c) Penderfynu, yn dilyn adolygiad, nad yw darparwr y gwasanaeth maethu bellach yn fodlon bod rhiant maeth neu dŷ rhiant maeth yn addas bellach, neu nad yw telerau cymeradwyaeth rhiant maeth yn briodol bellach, ac un ai derfynu'r gymeradwyaeth o ddyddiad penodol, neu bennu telerau diwygiedig y gymeradwyaeth yn ôl yr achos.
5.11	Ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan Banel Mabwysiadu Pen-y-bont ar Ogwr ac unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried yn ei gapasiti fel asiantaeth fabwysiadu:

	<p>(a) Penderfynu p'un a yw mabwysiadu er budd pennaf y plentyn, ac os felly, p'un a ddylid gwneud cais i ryddhau'r plentyn i'w fabwysiadu ac a ddylid talu lwfans;</p> <p>(b) Penderfynu p'un a yw darpar fabwysiadwr yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol a</p> <p>(c) Phenderfynu p'un a fyddai darpar fabwysiadwr yn rhiant mabwysiadol addas i blentyn penodol.</p>
5.12	Awdurdodi cau llyfrgelloedd dros dro neu amrywio eu horiau agor
5.13	Cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo at ddibenion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a gweithredu fel Llofnodwr Awdurdodedig pan fo'r corff goruchwyllo yn rhoi awdurdodiad ar gyfer amddifadu o ryddid.
5.14	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer trwyddedau i feddiannu yn unol â Safonau Gofal Cartref Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
5.15	Llofnodi ar ran y Cyngor, drwyddedau i feddiannu yn unol â Safonau Gofal Cartref Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

6. SWYDDOGAETHAU A DDYNODWYD I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL CYMUNEDAU

A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.1	<p>Y darpariaethau canlynol ynghyd â:</p> <p>(a) Y pŵer i bennu: Ceisiadau'r Cyngor, gan gynnwys y rheini a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, oni dderbynnir gwrthwynebiad cynllunio perthnasol; unrhyw gais lle mae Aelod Lleol wedi mynegi pryder cynllunio perthnasol a penderfyniad dirprwyedig yn unol â'r pryder hwnnw, neu nad oes gwrthwynebiad arall wedi'i dderbyn o fewn y cyfnod ymgynghori/cyhoeddusrwydd ac nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau yn ystyried bod angen adrodd am y cais i'r Pwyllgor; unrhyw gais a gyflwynir gan Aelod, Prif Swyddog, neu unrhyw swyddog sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog, neu unrhyw swyddog yn Adrannau'r Gwasanaethau Priffyrdd neu Ddatblygu sy'n rhan o'r gwaith o brosesu/rhoi sylwadau ar geisiadau (neu briod neu bartner unrhyw un o'r rhain) os nad oes gwrthwynebiad cynllunio perthnasol wedi'i dderbyn.</p> <p>(b) Y pŵer i bennu'r holl geisiadau cynllunio a cheisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, caniatâd i hysbysebu, caniatâd adeiladau rhestredig, caniatâd ardaloedd cadwraeth, ceisiadau am ganiatâd Gorchymyn Diogelu Coed a cheisiadau o dan y rheoliadau Perthi Uchel a gyflwynir i'r Cyngor, ac eithrio ceisiadau sydd yn unrhyw rai o'r categorïau o geisiadau eithriedig a ragnodir gan y Cyngor o dro i dro;</p> <p>(c) Y pŵer i bennu ceisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor am y tro;</p>

<p>(d) Y pŵer i ymrwymo i Rwymedigaethau Cynllunio Adran 106 ar geisiadau sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y cyd â'r Swyddog Monitro;</p> <p>(e) Y pŵer i gytuno a gwneud newidiadau bach i Gytundebau Adran 106 y mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad wedi cytuno arnynt ar y cyd â'r Swyddog Monitro, ac yn ôl disgrisiwn Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiad.</p>	
<u>Darpariaeth</u>	<u>Crynodeb o'r Effaith</u>
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Delio â diwygiadau bach nad ydynt yn berthnasol i geisiadau cynllunio o dan Adran 96A ac Adran 73.
Deddf Iawndal Tir 1961 – Adran 17	Penderfynu, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, ar geisiadau am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol
Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 – Adran 38	Cyhoeddi hysbysiad gorfodi adeiladau rhestredig.
Deddf Cynllunio a Digolledu 1991	Pennu Tystysgrifau Cyfreithlondeb mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 324 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 88	Cyhoeddi awdurdodiad ysgrifenedig i swyddogion priodol i'w galluogi i arfer pwerau mynediad.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 330	Cyhoeddi hysbysiadau yn hawlio gwybodaeth am fuddiannau mewn tir.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A Rhan 6 Atodlen 2 y Gorchymyn	Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas ag adeiladau a gweithrediadau amaethyddol.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A Rhan 7 Atodlen 2 y Gorchymyn	Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas ag adeiladau a gweithrediadau coedwigaeth.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A Rhan 24 Atodlen 2 y Gorchymyn	Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas â Gweithredwyr Systemau Cod Telegyfathrebu.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A Rhan 31 Atodlen 2 y Gorchymyn	Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw i ddymchwel adeiladau.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 207	Cyflwyno hysbysiadau disodli coed.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 – Erthygl 23	Awdurdodi gwaith i gydymffurfio ag amodau sydd wedi'u gosod mewn caniatâd cynllunio.
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017	Pennu p'un a ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad amgylcheddol.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171C	Cyflwyno hysbysiad tramgwydd cynllunio ac ystyried unrhyw gynigion neu sylwadau a wnaed gan unigolion mewn ymateb i hysbysiad o'r fath.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 172	Cyhoeddi hysbysiadau gorfodi.

	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 183	Cyflwyno hysbysiadau stop.
	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171E	Cyflwyno hysbysiadau stop dros dro.
	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 187A	Cyflwyno hysbysiadau torri amodau.
	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171A	Cyflwyno Hysbysiad Rhybudd Gorfodi
	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adrannau 199 a 201	Pŵer i wneud gorchymyn diogelu coed a chynnwys cyfarwyddyd yn y gorchymyn y bydd yn dod i rym yn syth heb gadarnhad ymlaen llaw.
	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 333(7)	Pŵer i amrywio neu dynnu Gorchymynion Diogelu Coed yn ôl mewn achosion priodol.
	Gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4 brys o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995	Gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) brys mewn Ardaloedd Cadwraeth lle mae perygl uniongyrchol o niwed i gymeriad neu ymddangosiad Ardal Gadwraeth.
Swyddogaethau Dynodedig		
6.2	Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, penderfynu ar geisiadau i ddefnyddio unedau manwerthu ym Mhentref Manwerthu Pen-y-bont y tu allan i delerau'r cytundeb a wnaed o dan Adran 107 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	
6.3	Arfer unrhyw bŵer a roddwyd i'r Cyngor i adennill unrhyw gostau a ysgwyddwyd o ganlyniad i arfer unrhyw bŵer a ddirprwywyd iddo gan y Cynllun Dirprwy hwn.	
6.4	Awdurdodi cyflwyno Hysbysiadau Diogelu Adeiladau i berchnogion a phreswylwyr adeiladau yn unol â Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adrannau 3 a 4 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 25.	
6.5	Trafod a mynegi safbwyntiau ar ran y Cyngor ar ddatblygiad Canllawiau Cynllunio Strategol i Dde Ddwyrain Cymru a Pholisi Cynllunio Gwastraff ar gyfer De Orllewin Cymru gydag unigolion a chyrrff eraill sy'n rhan o ffurfio polisiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol.	
6.6	Darparu arsylwadau ffurfiol pan ofynnir iddynt, gan gynnwys gwrthwynebiadau awdurdodau cynllunio cyfagos lle bo'n briodol mewn perthynas â dogfennau a baratowyd ganddynt i fodloni gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.	
6.7	Darparu arsylwadau i awdurdodau eraill pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd cyfagos, a darparu Adroddiad Effaith Lleol i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac os nad oes digon o amser i adrodd ar gynigion o'r fath i'r Cyngor, adrodd ar arsylwadau o'r fath i'r Cyngor wedi hynny er gwybodaeth.	
6.8	Arfer pwerau mewn perthynas â diogelu perthi pwysig a roddwyd i'r Cyngor gan Reoliadau Perthi 1997.	

6.9	Cadarnhau gorchmynion diogelu coed sydd heb eu gwrthwynebu o dan Adran 199 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	
6.10	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchmynion, Rheoliadau neu Offerynnau eraill a wnaed oddi tanynt neu mewn perthynas â nhw, neu unrhyw addasiad neu aiddeddfu i'r uchod, ac argymhell wrth Swyddog Monitro i ddechrau unrhyw achosion sifil neu droseddol sy'n codi o dorri'r darpariaethau hynny, neu sy'n angenrheidiol er mwyn gorfodi unrhyw rai o'r darpariaethau hynny:</p> <p>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016</p>	
6.11	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau canlynol neu is-ddeddfwriaethau a wnaed wedyn:	
	<u>Darpariaeth</u>	<u>Crynodeb o'r Effaith</u>
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 2 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 26	Pŵer i gyhoeddi rhestrau o adeiladau cofrestredig
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 3 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 24	Pŵer i gyflwyno hysbysiad rhestru i berchennog a phreswylwr
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 3 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 25	Pŵer i restru adeilad dros dro drwy gyflwyno Hysbysiad Diogelu Adeilad
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 54-60 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adrannau 30 a 31	Pŵer i weithredu gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig ac i adennill costau
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 57-58	Pŵer i benderfynu ar geisiadau am gymorth grant i atgyweirio neu gynnal adeiladau hanesyddol
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 76	Pŵer i gynnal gwaith brys i ddiogelu adeilad gwag mewn ardal gadwraeth ac i adennill costau.
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 79-80	Pŵer i benderfynu ar geisiadau am gymorth grant tuag at atgyweirio neu gynnal adeiladau hanesyddol mewn cynllun tref
	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 44A a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 29	Pŵer i gyflwyno Hysbysiad Stop Dros Dro i unigolyn y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn cynnal y gwaith neu'n peri iddo gael ei gynnal neu fod ganddo fuddiant yn

	yr adeilad.
--	-------------

B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

	<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>
6.12	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i sefydliadau gwirfoddol yn unol â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet neu'r Cyngor, lle nad yw swm y grant yn fwy na £10,000.
6.13	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y deddfiadau a restrir isod (ac eithrio'r darpariaethau hynny nad swyddogaeth y Cabinet yw eu gorfodi), ac argymhell wrth Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion troseddol o ganlyniad i dorri unrhyw rai o'r darpariaethau hynny: Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 Deddf Claddu 1857 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 1992 Deddfau Amlosgi 1902 a 1952 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978
6.14	Arfer pwerau'r Cyngor o dan Adrannau 3, 4, 5 a 6 Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978 i symud a chael gwared â cherbydau wedi'u gadael ac i adennill y costau o wneud hynny.
6.15	Penderfynu ar geisiadau am gymorth grant o dan Ddeddf Ardaloedd Trefol Mewnol 1978 ar gyfer gwelliannau i eiddo mewn Meysydd Gwella Masnachol a Diwydiannol yn unol â'r rheolau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor neu ar ei ran.
6.16	Cynrychioli'r Cyngor ar ddatblygu polisiâu cynllunio gwastraff strategol mewn cyfarfodydd rhwng awdurdodau.
6.17	Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, cymeradwyo cytundebau lefel gwasanaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Ymddriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent, Groundwork Pen-y-bont a Choed Cymru.
6.18	Ymrwymo i gytundebau i alluogi cynnal priffyrdd ar draul y cyhoedd yn unol â Rhan IV Deddf Priffyrdd 1980.

Swyddogaethau Dynodedig	
6.19	<p>Awdurdodi gwneud gorchmynion mewn perthynas â phriffyrdd (ac eithrio Gorchmynion o dan Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) a'u cadarnhau, eu diwygio neu eu hamrywio yn unol â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y deddfiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deddf Llwybrau Beiciau 1984 Deddf Priffyrdd 1980 Deddf Traffig Ffyrdd 1991 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
6.20	Cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i ddatgan y caiff priffyrdd eu cynnal ar draul y cyhoedd gan gynnwys derbyn ceisiadau i neilltuo priffyrdd lle ystyrir bod hynny'n briodol.
6.21	Cyflawni a chynnal yr holl waith at ddibenion priffyrdd (gan gynnwys eu newid a'u tynnu lle bo angen) yn unol â Rhan V Deddf Priffyrdd 1980, ac ymrwmo i unrhyw gytundebau mewn perthynas â'r gwaith y cyfeirir ato yn Rhan V Deddf Priffyrdd 1980.
6.22	Darparu gwasanaethau ac amwynderau dros briffordd, a rhoi caniatâd i bartïon eraill gyflawni gwaith a defnyddio gwrthrychau yn unol â Rhan VIIA Deddf Priffyrdd 1980.
6.23	Cymryd camau yn ôl yr angen i atal neu gael gwared ag ymyrraeth, aflonyddwch, niwsans, neu rwystyr anghyfreithlon i draffordd, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau perthnasol lle bo'n briodol.
6.24	Rhoi caniatâd lle bo angen i ymyrryd neu rwystro priffyrdd yn unol â Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980.
6.25	Gweithredu'r holl bwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan XI Deddf Priffyrdd 1980 (ac eithrio'r pŵer yn Adran 205 y Deddf honno) mewn perthynas ag adfywio Strydoedd Preifat, gan gynnwys pwerau i ymrwmo i gytundebau a chyflwyno hysbysiadau a phennu taliadau, ynghyd ag unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sydd ei angen.
6.26	Arfer unrhyw bŵer a roddwyd i'r Cyngor lle bo deddfwriaeth yn darparu i adennill costau a ysgwyddwyd ganddo o ganlyniad i weithredu unrhyw bŵer a ddynodwyd iddo.
6.27	Cymryd unrhyw gamau sy'n briodol i atal dulliau preifat o gael mynediad i'r draffordd yn unol â Rhan VIII Deddf Priffyrdd 1980.
6.28	Cymryd unrhyw gamau sy'n briodol i orfodi darpariaethau Deddf Amddiffyn y Glannau 1949.

6.29	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchymyn, Rheoliad neu Offeryn arall a wnaed oddi tanynt neu sy'n berthnasol iddynt, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad i'r canlynol (ac eithrio unrhyw ddarpariaeth nad swyddogaeth y Cabinet yw ei gorfodi) ac argymhell wrth y Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion troseddol os eir yn groes i'r darpariaethau hynny:</p> <p>Deddf Anifeiliaid 1971 Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 Deddf Priffyrdd 1980 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 Deddf Draenio Tir 1991 Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomenni) 1969 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 – Adran 57 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 – Rhan III Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 Deddf Traffig Ffyrdd 1991 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 Deddf Trafnidiaeth 1985 Deddf Trafnidiaeth 2000 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981</p>
6.30	Awdurdodi gwneud Gorchmynion Traffig brys o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
6.31	Awdurdodi gwneud Gorchmynion a chyhoeddi Hysbysiadau o dan Adran 14 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
6.32	Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau canlynol neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt:

	<u>Darpariaeth</u>	<u>Crynodeb o'r Effaith</u>
	Deddf Adeiladu 1984 – Adran 77	Pŵer i gynnal gwaith ar adeiladau peryglus ac adennill costau.
	Deddf Adeiladu 1984 – Adran 78	Mesurau brys ar gyfer trin strwythurau peryglus
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 37	Darpariaeth ar gyfer sicrhau bod priffyrdd a grëwyd trwy eu cyflwyno yn cael eu cynnal ar draul y cyhoedd.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 38	Pŵer awdurdodau priffyrdd i fabwysiadu trwy gytundeb.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 57	Pwerau diofyn awdurdodau priffyrdd mewn perthynas â phriffyrdd sydd heb eu hatgyweirio a gaiff eu cynnal a'u cadw'n breifat.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 59	Adennill costau a ysgwyddwyd o achos traffig anarferol.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 73	Pŵer i bennu llinell wella ar gyfer lledu'r stryd.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 74	Pŵer i bennu Llinell Adeiladu.
	Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 122	Pŵer i ddargyfeirio traffig dros dro os yw priffordd

<u>Darpariaeth</u>	<u>Crynodeb o'r Effaith</u>
	ar fin cael ei hatgyweirio neu ei lledu.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 146	Dyletswydd i gynnal camfeydd ac ati ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 147	Pŵer i awdurdodi adeiladu camfeydd ac ati ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 278	Cyfraniadau tuag at waith ar briffyrdd gan unigolion sy'n cael budd arbennig ohonynt.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 286	Pŵer i fynnu bod onglau adeiladau newydd ar gorneli stryd yn cael eu gwneud yn fwy crwn.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 287	Pŵer i godi rhwystrau ar strydoedd mewn achosion o argyfwng ac ati.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 288	Pŵer i fynnu bod pibelli nwy a dŵr yn cael eu symud
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 289	Pŵer mynediad i'r awdurdod priffyrdd at ddibenion cynnal arolwg.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 290	Darpariaethau atodol i'r pwerau mynediad at ddibenion arolwg.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 291	Pwerau mynediad i'r awdurdod priffyrdd er mwyn cynnal, cadw ac ati, strwythurau a gwaith penodol.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 292	lawndal am ddifrod o ganlyniad i arfer pwerau mynediad ac ati o dan Adran 289 neu 291 a throeddau'n gysylltiedig â hynny.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 293	Pwerau mynediad at ddibenion cysylltiedig â gorchmynion penodol mewn perthynas â llwybrau troed a llwybrau ceffylau.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 294	Mynediad ac ati i fangreoedd gan yr awdurdod priffyrdd neu'r Cyngor at ddibenion penodol.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 295	Pŵer Cyngorau i gael gwared â deunyddiau penodol.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 297	Pŵer awdurdod priffyrdd neu'r Cyngor i fynnu gwybodaeth o ran perchnogaeth tir.
Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 305	Adennill costau gan Gyngorau ac awdurdodau priffyrdd.
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adrannau 23 a 24.	Pwerau i drin coed peryglus.
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adrannau 25 a 26.	Pwerau i drin cloddfeydd peryglus.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 10	Pŵer i gyflwyno hysbysiad i leihau lledaeniad llwch ac ati o ganlyniad i waith ar adeiladau.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 11	Pŵer i gyflwyno hysbysiad i leihau llwch wrth symud glo.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 12	Pŵer i ddiogelu waliau rhag y tywydd.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 13	Pŵer i gymeradwyo cynlluniau ac ati ar gyfer waliau cynnal.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 14	Pŵer i gymeradwyo cynlluniau ac ati ar gyfer carthffosydd newydd a chyflwyno hysbysiau i unigolion sy'n cyflwyno cynlluniau ac ati.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 17	Pŵer i wneud gorchmyn yn gwahardd cerbydau trymion rhag parcio ar strydoedd preswyl.
Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol	Pŵer i gyflwyno hysbysiad yn mynnu gwaith i

	<u>Darpariaeth</u>	<u>Crynodeb o'r Effaith</u>
	1987 – Adran 19	waliau rhwng partïon neu waliau terfyn.
	Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomenni) 1969	Arolygiadau a phwerau mewn perthynas â thomenni.
	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 – Adran 57	Cosbi am arddangos hysbysiadau ar lwybrau cyhoeddus yn rhwystro defnydd gan y cyhoedd.
	Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 – Rhan III	Rheoli gwaith stryd gan gyflenwyr gwasanaeth cyhoeddus yn unol â hawl statudol neu drwydded gwaith stryd
	Deddf Cronfeydd Dŵr 1975	Arolygu a chofrestru cronfeydd dŵr.
	Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 – Adran 14(1)	Pwerau i atal cerbydau rhag defnyddio ffordd.
	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 – Adran 61	Aredig ar dir hawl dramwy gyhoeddus.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.33	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sydd ei angen er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchymyn, Rheoliad neu Offeryn arall a wnaed oddi tanynt neu sy'n berthnasol iddynt, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad i'r canlynol (ac eithrio unrhyw ddarpariaeth nad swyddogaeth y Cabinet yw ei gorfodi) ac argymhell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achosion troseddol os eir yn groes i'r darpariaethau hynny:</p> <p>Deddf Adeiladu 1984 Deddf Claddu 1857 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 Deddf Priffyrdd 1980 Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961 Deddfau Traffig Ffyrdd 1988 a 1991</p>
6.34	<p>Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Adeiladu a Deddf Adeiladu 1984 mewn perthynas â chymeradwyo (gydag amodau neu beidio) neu wrthod cynlluniau a adnewydw, rhoi hysbysiadau bod cynlluniau a adnewydw heb effaith a thynnu neu ddiwygio gwaith sy'n troseddu.</p>

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.35	<p>Cyflawni'r swyddogaethau canlynol:</p> <p>Hysbysu am Gladdu o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 Trwyddedau Coffa o dan Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 Hysbysu am Fwriad i Symud Cerbydau Wedi'u Gadael o dan Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978 Gorfodi darpariaethau Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978; Adran 132 Deddf Priffyrdd 1980; Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990; Adran 224 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003; a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.</p>

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.36	Ymrwymo i gytundebau i greu llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn unol ag Adran 25 Deddf Priffyrdd 1980.
6.37	Cymeradwyo ceisiadau gan fusnesau cymwys am gymorth ariannol o dan y cynlluniau grant a weithredir gan y Cyngor yn unol â'i bwerau datblygu economaidd.
6.38	Penodi swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau fel Ysgrifennydd a Dirprwy Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont.
6.39	Cyflawni'r broses a nodir yn Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 i geisio enwebiadau am aelodaeth o Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont.
6.40	Penodi ymgeiswyr priodol yn aelodau o Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont, yn dilyn trafodaethau â'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth ac Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont.
6.41	Cymeradwyo ceisiadau am grantiau Rhaglen Gwella Ystadau Diwydiannol sy'n is na £60,000.
6.42	Arfer pwerau a roddwyd i'r Cyngor o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1899 neu unrhyw ddarpariaeth statudol arall mewn perthynas â thiroedd comin a reoleiddir, ac eithrio'r pŵer i wneud, diddymu neu ddiwygio unrhyw is-ddeddf.
6.43	Gweithredu unrhyw bŵer a roddwyd i'r Cyngor mewn perthynas â defnyddio a rheoli Tir Agored, Parciau (caeëdig) a Chaeau Chwarae, gan gynnwys ardaloedd chwarae ag offer i blant, pafiliynau chwaraeon ac adeiladau hamdden cysylltiedig.
6.44	Ymrwymo i gytundebau asiantaeth â Chynghorau Tref a Chymuned o dan Adran 43 Deddf Priffyrdd 1980 ar gyfer cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus.
6.45	Penderfynu ar geisiadau am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a wneir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, un ai i gymeradwyo ceisiadau'n ffurfiol neu i wrthod ceisiadau'n ffurfiol lle nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod Map a Datganiad Diffiniol Pen-y-bont yn anghywir.
6.46	Penderfynu ar bob cais a threfniant gweinyddol mewn perthynas â thiroedd dynodedig ac eisteddleoedd a reoleiddir o dan Ddeddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 a chyhoeddi hysbysiadau gwahardd o dan Adran 10 y Ddeddf.
6.47	Penderfynu ar geisiadau gan denantiaid am ganiatâd y Cyngor fel landlord i: (a) aseinio'u buddiannau lesdaliadol;

	<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>
	<p>(b) is-osod neu rannu meddiant yr adeilad ar osod i gyd neu'n rhannol;</p> <p>(c) newid defnydd o fangre ar osod, cyn belled â bod y defnydd arfaethedig:</p> <p>(i) o fewn yr un dosbarth defnydd fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 â'r defnydd presennol neu</p> <p>(ii) yn newid defnydd y mae caniatâd cynllunio wedi'i dderbyn ar ei gyfer, un ai yn benodol neu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 dan yr amod bod unrhyw ôl-ddyledion rhent yn cael eu talu a bod unrhyw dramgwydd cyfamod arall yn cael ei gywiro;</p> <p>(ch) creu morgais neu ffi am eu buddiannau lesddaliadol;</p> <p>(d) gwneud newidiadau mewnol ac allanol a chodi ychwanegion ac estyniadau dan yr amod bod y tenant yn derbyn pob caniatâd statudol sydd ei angen ac yn cydymffurfio ag amodau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.</p> <p>(dd) ildio isbrydles</p>
6.48	Awdurdodi grant prydles neu denantiaeth o dan amgylchiadau pan fo hunaniaeth y tenant arfaethedig wedi newid ers i delerau'r trafodiad gael ei gymeradwyo gan y Cyngor neu ar ei ran.
6.49	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer gosod holl eiddo gan neu i'r Cyngor (gan gynnwys y rhent sy'n daladwy) am rhent nad yw'n fwy na £100,000 y flwyddyn.
6.50	Cymeradwyo setlo hawliadau am iawndal statudol.
6.51	Penodi Gwerthwyr Tai i farchnata unrhyw dir neu adeiladau sydd gan y Cyngor i'w gwerthu.
6.52	Awdurdodi, a chytuno ar y telerau ar gyfer, cael gwared â thir ac adeiladau, drwy eu gwerthu'n rhydd-ddaliadol neu eu prydlesu, cyhyd â bod amcangyfrif gwerth premiwm y pris gorau y gellid disgwyl ei gael yn ddim mwy na £300,000.
6.53	Awdurdodi, a chytuno ar y telerau ar gyfer, cael gwared â thir ac adeiladau yr amcangyfrif nad ydynt yn werth mwy na £150,000, am danwerth is lle ystyrir bod: Y gwaredu er budd lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal gyfan yr Awdurdod neu ran ohoni, neu rai neu'r holl unigolion sy'n preswyllo neu sy'n bresennol yn ardal yr Awdurdod; gwaredu yn unol â Chanllawiau Strategaeth Gwaredu a Throsoglwyddo Asedau Cymunedol yr Awdurdod; ac nad yw tanwerth y gwaredu yn fwy na £50,000, cyn belled nad yw'r gwaredu yn mynd yn groes i ofynion Cymorth Gwladwriaethol.
6.54	Cytuno ar delerau ar gyfer adnewyddu pob prydles a roddir gan y Cyngor neu iddo.
6.55	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer rhoi hawddfrait a fforddfrait a thrwyddedau i feddiannu tir ac adeiladau gan y Cyngor neu iddo.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.56	Gwneud ceisiadau cynllunio mewn perthynas â thir y mae'r Cyngor yn bwriadu cael gwared ag ef.
6.57	Trefnu gweithredu yswiriant iawndal teitl o dan amgylchiadau addas.
6.58	Awdurdodi cyflwyno hysbysiadau sy'n terfynu prydles neu denantiaeth (gan gynnwys rhai i fangreoedd busnes sydd wedi'u cynnwys yn Rhan II Deddf Landlord a Tenant 1954) lle nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu cyflwyno prydles neu denantiaeth newydd.
6.59	Awdurdodi cyflwyno hysbysiadau yn terfynu prydles neu denantiaeth (ac eithrio'r rheini sy'n berthnasol i safleoedd busnesau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan II Deddf Landlord a Tenant 1954 lle na fwriedir gwrthwynebu cyflwyno prydles neu denantiaeth newydd) a chyflwyno hysbysiadau i unioni torri cyfamod.
6.60	Argymhell y dylid cychwyn achosion fforffedu neu achosion cyfreithiol eraill yn erbyn prydleseion/tenantiaid wrth y Swyddog Monitro.
6.61	Awdurdodi cyflwyno hysbysiadau priodol a gwrth-hysbysiadau a chymryd unrhyw gamau eraill sydd eu hangen i ddiogelu buddiannau'r Cyngor fel prydleswr neu brydlesai.
6.62	Awdurdodi a chytuno ar osod a setlo apeliadau ardrethu a gyflwynir gan y Cyngor neu ar ei ran.
6.63	Awdurdodi a chytuno ar ryddhau cyfamodau cyfyngol sydd o blaid neu sy'n rhwymo'r Cyngor ar gyfer symiau o hyd at £100,000.
6.64	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer ildio prydlesi gan y Cyngor neu iddo, gan gynnwys talu neu dderbyn premiwm nad yw'n fwy na £50,000.
6.65	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer datrys honiadau adfeiliad a wnaed gan y Cyngor neu yn ei erbyn.
6.66	Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer caffael tir neu adeiladau sydd â gwerth cyfalaf neu flynyddol nad yw'n fwy na £100,000.
6.67	Cymeradwyo amrywio telerau prydlesi presennol.
6.68	Penodi arbenigwr neu ganolwr i bennu adolygiad rhent neu unrhyw anghydfod o dan ddarpariaethau prydles bresennol, lle nad yw amcangyfrif cost gwneud hynny'n fwy na £100,000.

<u>Swyddogaethau Dynodedig</u>	
6.69	Awdurdodi creu llwybrau goddefol ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mewn ymgynghoriad ag unrhyw adran dal.
6.70	Awdurdodi cyflwyni hawl dramwy gyhoeddus (llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau cyhoeddus, neu gilffordd gyfyngedig) ar unrhyw dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mewn ymgynghoriad ag unrhyw adran dal.
6.71	Cymeradwyo uchafswm lefelau cyllid i sefydliadau gwirfoddol lle nad yw swm y cyllid yn fwy na £100,000.
6.72	Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau statudol, yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984, yn gofyn am wybodaeth.
6.73	Penderfynu ar geisiadau gan rydd-ddeiliaid am ganiatâd y Cyngor: <ul style="list-style-type: none"> (a) fel cyfamodai lle bo gan y Cyngor gyfamodau'n effeithio ar eiddo'r rhydd-ddeiliad; (b) fel morgaisai lle bo morgais wedi'i gofrestru yn erbyn eiddo'r rhydd-ddeiliad o blaid y Cyngor; (c) lle bo angen caniatâd y Cyngor yn unol â chyfyngiad sydd wedi'i gofrestru yn erbyn eiddo'r rhydd-ddeiliad o blaid y Cyngor.
6.74	Awdurdodi a chytuno ar delerau gweithred gyfamod ar unrhyw dir neu adeilad nad yw amcangyfrif ei werth cyfalaf na blynyddol yn fwy na £100,000.
6.75	Penderfynu na ddylid cyflwyno'r darpariaethau adolygu rhent sydd wedi'u cynnwys mewn prydles eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arno pan ystyrir bod adolygu rhent yn amhriodol o achos amgylchiadau arbennig.
6.76	Cytuno ar delerau pob adolygiad rhent mewn perthynas ag eiddo a gaiff ei brydlesu gan y Cyngor ac iddo
6.77	Cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau Cod Rhagdaliadau yn unol â Deddf Priffyrdd 1980.